Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

PLANT, POBL IFANC A CHAMDRINIAETH YN Y CARTREF

GWELLA CANLYNIADAU I BLANT A PHOBL IFANC SYDD WEDI CAEL PROFIAD O GAMDRINIAETH YN Y CARTREF

MAE PLANT YN BWYSIG
CHILDREN MATTER

www.welshwomensaid.org

Profiadau Plant a Phobl Ifanc o Gamdriniaeth yn y Cartref.

Mae oedolion yn aml yn credu na chaiff plant a phobl ifanc eu heffeithio gan y gamdriniaeth os nad ydynt ei gweld yn digwydd, ond nid dyma'r gwir amdani. Hyd yn oed os na fydd plentyn neu berson ifanc yn gweld y gweiddi a'r bwrw, maen nhw fwy na thebyg wedi ei glywed neu wedi gweld cleisiau ar eu rhiant a'r gofid ar ôl dadl. Mae llawer o blant yn dystion uniongyrchol i gamdriniaeth yn y cartref. Mewn 90% o achosion o gamdriniaeth yn y cartref mae'r plant neu'r bobl ifanc yn yr un ystafell neu'r ystafell nesaf (Hughes, 1992).

Mae risg uwch hefyd y caiff rhai plant a phobl ifanc eu cam-drin eu hunain. Mae llawer o blant yn ymyrryd i geisio helpu eu mam, naill ai drwy gymryd y risg o wynebu camdriniaeth uniongyrchol eu hunain neu drwy redeg at rywun arall am gymorth.

Mae merched ifanc 16-25 oed yn cyfrif am fwy na 35% o'r oedolion mewn llochesi yng Nghymru, fel dioddefwyr sy'n ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref.

Mae bod yn dyst i drais yn y cartref yn gamdriniaeth emosiynol; gallai plant hefyd gael eu cam-drin yn uniongyrchol yn emosiynol, yn gorfforol a/neu'n rhywiol eu hunain. Hyd yn oed ar ôl ymwahanu, gall camdrinwyr ddefnyddio cysylltiad gyda phlant i barhau i'w brawychu a'u rheoli.

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o gamdriniaeth yn y cartref yn dweud wrthym eu bod yn teimlo 'tristwch, dicter, euogrwydd, torcalon, dryswch ac ofn'.

Effeithiau Camdriniaeth yn y Cartref ar Blant a Phobl Ifanc

Gall plant a phobl ifanc wynebu effeithiau gwybyddol, ymddygiadol ac emosiynol yn y tymor byr a'r hirdymor. Bydd pob plentyn/person ifanc yn ymateb yn wahanol i drawma, hyd yn oed o oedran ifanc iawn. Bydd rhai'n wydn heb ddangos arwyddion o effeithiau negyddol amlwg; neu gallai fod ganddynt deimladau ansicr a beio'r camdriniwr a/neu'r rhiant nad yw'n cam-drin.

Mae eu dull o wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd yn cael ei ddylanwadu gan lawer o ffactorau, gan gynnwys eu profiad arbennig eu hunain o gamdriniaeth, sut maent yn deall camdriniaeth eu mam, eu hoedran, ac yn hanfodol, y cymorth maent yn ei gael.

Gallai plant a phobl ifanc hefyd deimlo dicter, euogrwydd, ansicrwydd, unigrwydd, ofn, diffyg grym neu ddryswch.

Mae angen rhywun i blant a phobl ifanc siarad â nhw am eu profiadau ac i'w helpu i wneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd am eu bod yn ei chael yn anodd iawn siarad ag oedolion neu ffrindiau oherwydd y cywilydd, yr euogrwydd a'r teimlad ynysig sydd ganddynt.

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw gyda chamdriniaeth yn y cartref yn unigolion eu hunain gyda'u hanghenion a'u hawliau eu hunain. Mae'n bwysig bod llawer mwy o ddealltwriaeth am gamdriniaeth yn y cartref a'i heffeithiau ar ferched a phlant. Mae angen i blant wybod nad nhw sydd ar fai, ac mae angen cymorth arnynt i wrthbwyso'r effaith negyddol mae camdriniaeth yn y cartref yn ei chael ar fywydau plant a phobl ifanc.

Mewn 90% o achosion o gamdriniaeth yn y cartref, roedd plant yn yr un ystafell neu'r ystafell nesaf.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc.

Rydym yn cydnabod yr effeithiau trawmatig ar blant a phobl ifanc o fyw gyda chamdriniaeth yn y cartref a gadael camdriniaeth yn y cartref.

Mae pob grŵp o fewn Cymorth i Ferched Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phlant a'u cefnogi yn eu profiadau.

I lawer o blant a phobl ifanc gallai gadael camdriniaeth ddod â theimlad o ryddhad ond gallai hefyd olygu colli bron popeth sy'n gyfarwydd iddynt. Gallent deimlo'n bryderus ac wedi'u drysu am yr hyn sy'n digwydd.

Mae Cymorth i Ferched yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n byw mewn lloches, ar ôl iddynt adael y lloches a thrwy waith allymestyn i'r rheiny nad ydynt wedi byw mewn lloches.

Mae gwaith uniongyrchol yn cynnwys sesiynau chwarae, gweithio wyneb yn wyneb yn unigol, gweithio mewn grŵp, ac ati, ac mae hyn oll er mwyn i blant weithio drwy eu teimladau, gwneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd, cael cymorth gan eu cyfoedion a theimlo'n hapusach. Mae gweithwyr CF yn eiriolwyr dros blant i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hystyried a'u lleisiau'n cael clust.

Mae 38% o'r oedolion sy'n byw mewn llochesi yng Nghymru rhwng 16-25 oed

www.welshwomensaid.org

Sut gallwch helpu'r rheiny sy'n byw gyda Chamdriniaeth yn y Cartref?

- Gwrando ar blant – fel y gellir cydnabod eu profiadau.
- Herio'r agweddau sy'n cydoddef trais yn erbyn merched a phlant.
- Beio'r gamdriniaeth ar y camdriniwr, nid ar y rhai sy'n cael eu cam-drin.
- Bod yn ymwybodol y gallai camdriniaeth yn y cartref fod wrth wraidd problemau eraill fel camddefnydd sylweddau, problemau ymddygiad neu absenoldeb o'r ysgol.
- Cysylltwch â ni am gymorth gyda hyfforddiant yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifanc.
- Gweithio gyda'ch grŵp Cymorth i Ferched lleol.

Sut gallwn eich helpu chi?

Gyda gwybodaeth, posteri, taflenni, hyfforddiant, siaradwyr, ymchwil a chyhoeddiadau

Caiff plant eu cam-drin yn gorfforol mewn 40-60% o achosion o gamdriniaeth yn y cartref.

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL:

I ddod o hyd i'ch Grŵp Cymorth i Ferched lleol, ewch i
www.welshwomensaid.org
neu ffoniwch
02920 390874

Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref Cymru
0808 8010 800

Llinell Gymorth NSPCC
0808 800 5000

CYSYLLTIADAU AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC:

Childline
0800 11 11

Y Samariaid
08457 90 90 90

www.thehideout.org.uk

www.notyourfault.org

www.u-wales.org

Mae plant a phobl ifanc yn cyfrif am dros hanner y bobl sy'n byw mewn llochesi.

MAE PLANT YN BWYSIG
Cymorth i Ferched Cymru
38–48 Heol Crwys,
Caerdydd CF24 4NN

Ffôn 02920 390874
Ffacs 02920 390878
E-bost info@welshwomensaid.org.uk
www.welshwomensaid.org

MAE PLANT YN BWYSIG CHILDREN MATTER